

Y FFORWM GWEITHWYR

21 Mawrth 2018

Yn bresennol: Mrs A Dooner (Cadeirydd)

Cynrychiolwyr Aelodau:

Mr A Archer, Cynghorydd P Harries, Cynghorydd R Owens, Dr RM Plummer a'r Cynghorydd M Williams.

Cynrychiolwyr Staff:

Ms N Couceiro, Miss S Davies, Ms D Hughes a Ms J Jones.

Cynrychiolwyr Undeb:

Ms H Huelin a Ms M Hughes (Unsain).

(Swyddfa'r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am – 11.10am)

1. **Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd P Kidney.

2. **Cyflwyniadau**

Cyflwynodd pob un eu hunain i weddill y Fforwm Gweithwyr.

3. **Datgan Buddiannau**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

4. **Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 6^{ed} o Fedi 2017 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

CYTUNWYD i gadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 6^{ed} o Fedi 2017.

5. **Y Cynnig Cyflog: Y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol**

Eglurodd y Rheolwr Personél bod yr Awdurdod yn rhan o delerau ac amodau ar y cyd a drafodir yn genedlaethol gan gyflogwyr ac undebau yn y Cyd-Gyngor Cenedlaethol (NJC). O ran cyflogau, roedd yr NJC wedi cytuno â'r gwerthoedd cyflog oedd yn y pwyntiau ar y golofn-dâl, ac roedd gan bob Awdurdod ei strwythur ei hun, hynny yw, y modd y mae'n rhannu'r golofn-dâl yn wahanol raddfeydd.

Roedd yr NJC wedi bod yn gweithio ar yr her o gwrdd â'r cynnydd yn y cyfraddau isafswm cyflog a gynigiwyd pan gyflwynwyd y Cyflog Byw



Cenedlaethol ar gyfer gweithwyr 25 oed a throsodd. Byddai nifer o'r pwyntiau ar y golofn-dâl i mewn i Raddfa 3 yn is na lefel y Cyflog Byw Cenedlaethol, ac felly roedd angen ailwampio'r golofn-dâl. Nodwyd bod yr Awdurdod wedi bod yn talu'r Cyflog Byw ers rhai blynnyddoedd, ac ar hyn o bryd yn talu lwfans byw atodol ar ben y cyflog sylfaenol i sicrhau bod pawb heblaw hyfforddeion yn ennill £8.45 yr awr, gan godi i £8.75 o'r 1af o Ebrill 2018.

Cafodd cynnig cyflog 2 flynedd ei wneud i'r undebau fis Rhagfyr 2017 fel y nodwyd yn y dogfennau a ddosbarthwyd i aelodau'r Fforwm. Fodd bynnag nid oedd canlyniadau pob pleidlais wedi dod i law ac felly nid oedd unrhyw ddyfarniad cyflog wedi'i gytuno hyd yn hyn.

Eglurodd y Rheolwr Personél bod y cynnig codiadau cyflog ar gyfer 2018 yn cynnig codiadau rhwng 3.7% a 9.1% ar y golofn-dâl i Raddfa 4, gyda 2% ar y pwyntiau eraill. Fodd bynnag gan fod yr Awdurdod eisoes yn talu'r Cyflog Byw, ni fyddai'r cynnydd yn y graddau hyn mor uchel. Roedd y cynnig cyflog ar gyfer 2019 oedd hefyd yn 2% neu'n uwch, yn cael mwy o oblygiadau ar strwythur tâl yr Awdurdod fyddai'n gorfod cynnwys y newidiadau i'r golofn-dâl a gynigiwyd. Roedd y strwythur presennol yn gynyddrannol, gan roi gwerth ar wasanaeth hir. Fodd bynnag, gallai adolygu'r strwythur hwn ganiatáu i gyflog gael ei gysylltu â pherfformiad, sgiliau neu gymhwysedd ac ymddygiad er mwyn amlygu gwerthoedd yr Awdurdod yn well. Roedd angen i staff ac i'r rheolwyr yn arbennig gefnogi unrhyw newid o'r fath er mwyn gwneud i'r newid weithio. Gofynnwyd felly am farn y fforwm.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr bod y cynnig hwn dros ddwy flynedd yn gynnig cadarnhaol i'r staff, ac roedd y cynnig wedi'i drafod mewn cyfarfod o'r Cynrychiolwyr Staff ac mewn cyfarfod o Dîm Arweinyddiaeth yr Awdurdod. Byddai cyflwyniad pellach yn cael ei wneud i'r holl staff yn y cyfarfod staff a gynhelir cyn hir. Dechrau'r broses yw hyn, a byddai unrhyw newidiadau yn cymryd amser i'w rhoi ar waith, ond ni ellid gwneud dim hyd nes bod y dyfarniad cyflog wedi'i wneud.

Ailfynegodd y Cynrychiolwyr Staff ar y Fforwm eu barn bod nawr yn amser da i adolygu'r strwythur cyflogau, a chytunodd nifer o'r Aelodau, er bod peth amheuaeth ynglŷn â strwythur ar sail perfformiad. Wrth ymateb i gwestiwn, roedd y Rheolwr Personél yn cydnabod nad oedd ganddi'r gallu i gynnal adolygiad yn ei gyfanrwydd. Serch hynny, gellid dadelfennu a rheoli'r gwaith gyda chymorth arbenigedd allanol.

NODWYD.

6. Blaenoriaethau'r Awdurdod yn erbyn cefndir o gwtogi 5% yn y cyllid Atgoffodd y Prif Weithredwr aelodau'r Fforwm bod yr Awdurdod wedi



gweld cwtogi sylweddol yn y gyllideb dros y blynyddoedd diweddar, gyda thoriad o 5% ar gyfer 18/19 ac wedyn toriad dangosol o 5% ar gyfer 19/20 a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Canlyniad hyn yw y byddai cyllideb yr Awdurdod ar gyfer 19/20 yn rhyw £450,000 yn is nag yn y flwyddyn gyfredol; nodwyd na fyddai'r cyllid diwedd blwyddyn a dderbyniwyd yn ddiweddar oddi wrth Lywodraeth Cymru yn effeithio ar y gyllideb sylfaenol. Roedd hyn yn golygu bod pennu cyllideb yn dod yn fwyfwy heriol, er gwaethaf y cynnydd mewn incwm o'r canolfannau, y meysydd parcio a'r ffioedd cynllunio. Gofynnwyd felly am farn y Fforwm ynghylch pa gamau y dylai'r Awdurdod eu cymryd.

Ymhlith yr awgrymiadau gan y Fforwm oedd blaenoriaethu gofalus o'r hyn yr oedd yr Awdurdod yn ei gyflawni, sicrhau bod popeth yn unol â dibenion y Parc, a chydabod bod rhai pethau y byddai'n rhaid iddynt o bosibl ddod i ben, yn ogystal â chreu mwy o incwm. Awgrymwyd hefyd bod angen i Lywodraeth Cymru fod yn ymwybodol y gallai toriadau parhaus arwain at yr Awdurdod yn methu â chyflawni ei ddibenion, er bod aelodau eraill yn nodi y byddai gwasanaethau eraill, mewn gwirionedd, megis addysg a gwasanaethau cymdeithasol, yn cael blaenoriaeth uwch bob tro o ran gwariant. Cydnabuwyd bod y Parciau Cenedlaethol wedi gwneud cyfraniad sylweddol i les cymdeithasol, a ddangoswyd yn Adroddiad Williams, a hefyd i economi Cymru; pwysleisiwyd pa mor bwysig felly yw llobio gwleidyddol gydag un llais.

NODWYD.

7. Egwyddorion a Chanllawiau i Gefnogi Cynllunio'r Gweithlu ar y Cyd ym maes Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru

Dywedwyd bod y Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus yn sefydliad annibynnol anstatudol sy'n cynghori Gweinidogion Cymru a chyrrff gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ar faterion y gweithlu sy'n deillio o ddiwygiadau yn y gwasanaeth cyhoeddus oedd angen gweithredu arnynt a'u datrys. Er mwyn cefnogi ei waith, roedd y canllawiau a enwir uchod wedi'u cyhoeddi yn 2017, a nodwyd bod y canllawiau hyn yn berthnasol i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Cefnogwyd yr egwyddorion a nodwyd yn y canllawiau, ond roedd y sector cyhoeddus yng Nghymru yn amrywiol iawn, ac roedd yr Awdurdod hwn yn gorff bach o fewn y sector hwnnw. Roedd y ddogfen wedi'i dosbarthu i aelodau'r Fforwm am drafodaeth ynglŷn â'r hyn yr oedd 'Cynllunio'r Gweithlu' yn ei olygu i'r Awdurdod.

Cytunodd y Fforwm bod yr egwyddorion a nodir yn y canllawiau yn ardderchog, er eu bod yn fwy priodol o ran graddfa i'r cyrrff cyhoeddus mwy o faint.

NODWYD.



8. Datganiad Gweinidogol ar Ddyfodol Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol

Atgoffodd y Prif Weithredwr aelodau'r Fforwm ei bod yn ymddangos fel petai'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru wedi cael eu hadolygu'n gyson yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Barnwyd bod y Datganiad yn ddatganiad cadarnhaol, er nad oedd dymuniad yr Aelodau bod dyletswydd yr Awdurdod i feithrin lles economaidd a chymdeithasol y cymunedau sy'n byw yn y Parc yn dod yn drydydd diben, wedi'i gynnwys. Roedd y datganiad yn nodi y byddai nifer o bethau'n digwydd, a'r mwyaf arwyddocaol oedd cyhoeddi datganiad polisi, a'r gobaith oedd y byddai'r datganiad hwn yn destun ymgynghoriad cyn cytuno arno.

Rhoddodd aelodau'r Fforwm groeso gofalus i'r ddogfen, yn enwedig y datganiadau y byddai Parciau Cenedlaethol yn cael eu cadw ac na fyddai eu dibenion yn cael eu gwanhau. Hefyd y gobaith oedd y byddai'r Datganiad yn nodi diwedd ar gyfnod o adolygu oedd yn peri ansicrwydd i'r staff.

NODWYD.

